# Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 10 Ionawr 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 12 Ionawr 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 19 Ionawr 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 20 Ionawr 2023.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd a Gwyn Wigley Evans.

(10.00am-11.06am)

**118 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**119 Materion Personol**

i. Diolchwyd i staff, aelodau a gwirfoddolwyr am eu hymdrechion wrth gynorthwyo teuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn anffodus gan doriad yn y cyflenwad dŵr yn dilyn tywydd garw ym mis Rhagfyr. Diolchwyd i Tŷ Nant am eu cyfraniad sylweddol wrth gyflenwi dŵr potel i deuluoedd.
ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Keith Henson ar ddod yn dad-cu yn ddiweddar.
iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Parch Euryl Howells, Uwch Gaplan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) iddo am ei wasanaethau i'r Gaplaniaeth gyda GIG Cymru.

**120 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/ buddiannau sy'n rhagfarnu.

**121 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**122 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

Dim.

**123 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**124 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

**125 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Grŵp Datblygu a Grwpiau Ategol Eraill gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

1. Cytuno ar aelodaeth y Grŵp Datblygu.
2. Cytuno ar y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer y Grŵp Datblygu, y Grŵp Monitro Cyfalaf, y Grŵp Rheoli Asedau a'r Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol.
3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

1. I oruchwylio'n strategol a rheoli Rhaglen Ddatblygu'r Cyngor mewn ffordd well.
2. I wella'r trefniadau ar gyfer cyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor.
3. I ddefnyddio amser ac adnoddau yn effeithlon ac effeithiol.

**126 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch Cynllun Gweithredu Sero Net - diweddariad ar y cynnydd gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i) Nodi'r cynnydd a wneir gyda'r camau sydd yn y Cynllun Gweithredu Sero Net.
ii) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Mae rhoi diweddariadau ar y cynnydd bob hyn a hyn yn rhan ganolog o'r gwaith o fonitro ein siwrnai Sero Net, ac fe nodwyd yn y Cynllun y byddem yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r pwyllgor craffu a Cabinet.

**127 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid ynghylch y Siarter Cwsmeriaid gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i) Cymeradwyo'r Siarter Cwsmeriaid.
ii) Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Cymeradwyo Siarter ddiwygiedig y Cwsmeriaid sy'n rhoi arweiniad i gwsmeriaid ar sut i gysylltu â'r Awdurdod a phryd i gael ymateb.

**128 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau yn unol â Safon 94**

PENDERFYNIAD:

I gymeradwyo Polisi'r Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
I gyrraedd gofyniad Safon 94 yn Fframwaith Statudol Safonau'r Gymraeg.

**129 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Dyfarniad Grant Cyfalaf Chwaraeon Cymru i Ymddiriedolaeth Pwll Nofio Coffa a Neuadd Aberteifi**

PENDERFYNIAD:

1. I nodi bod Chwaraeon Cymru yn cymeradwyo cyfanswm grant gwerth £470,261 gyda gofyniad ar i'r Cyngor gyfrannu arian cyfatebol o £220k.
2. Cytuno bod y Cyngor yn gweithredu mewn rôl gyswllt fel banciwr ar gyfer Grant Chwaraeon Cymru o £207,262 parthed Pwll Nofio Coffa a Neuadd Aberteifi.
3. Cytuno bod y Cynlluniau yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Galluogi buddsoddiad cyfalaf gwerth £207,262 ym Mhwll Nofio Coffa a Neuadd Aberteifi.

**130 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (21.10.22)**

Nodwyd yr adroddiad.

**131 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023**

**Cadeirydd:** _____

**Dyddiad:** _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol